

Datganiad newyddion

Dyddiad: 2 Gorffennaf 2018

Teitl: Rhaglen profiad gwaith gwerth £10 miliwn wedi'i hystyngiwr am dair blynedd

Mae rhaglen dair blynedd i ddarparu profiad gwaith teilwredig i fyfyrwyr llawn amser dan 25 oed wedi cael ei hystyngiwr.

Mae GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith yn darparu cefnogaeth deilwredig i fyfyrwyr cymwys iau o gefndiroedd mwy difreintiedig i gael y gorau o'u profiad gwaith a chynllunio eu camau nesaf.

Cyflwynir y rhaglen ledled Cymru, a gyllidir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, CCAUC a darparwyr addysg uwch, gan y prifysgolion er mwyn helpu myfyrwyr i ddatblygu a mireinio eu sgiliau cyflogadwyedd drwy brofiad gwaith, fel eu bod yn y sefyllfa orau i sicrhau cyflogaeth, hyfforddiant neu addysg pan maent yn gadael eu cwrs.

Bydd y rhaglen, a ddechreuodd yn 2016, yn dod i ben ym mis Ionawr 2022 yn awr. Hyd yma, mae 655 o fyfyrwyr wedi cael eu derbyn ar y rhaglen ac mae 351 o fyfyrwyr wedi cael eu cefnogi i brofiad gwaith.

Dywedodd David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae wedi bod yn wych gweld y dystiolaeth gynnar bod y rhaglen yn cael effaith ar fyfyrwyr a chyflogwyr. Hefyd mae'r adolygiad hanner ffordd drwy'r rhaglen wedi dangos bod rhaid iddi bara am gyfnod hirach er mwyn ennill momentwm o gofio, yn naturiol, ei bod yn gallu cymryd mwy o amser i sefydliadau gysylltu â myfyrwyr anos eu cyrraedd,

cyn trafod eu hanghenion gyda hwy. Rydyn ni'n hyderus y bydd y prifysgolion sy'n cymryd rhan yn parhau i ymgorffori'r rhaglen hon er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau cymaint o fyfyrwyr â phosib yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod."

Dyweddodd Jane Goodfellow, Pennaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd ym Mhrifysgol Caerdydd a Chadeirydd AGCAS Cymru, y sefydliad ar gyfer datblygu gyrfaoedd myfyrwyr AU a gweithwyr cyflogaeth proffesiynol graddedig: "Mae rhaglen GO Wales yn elfen allweddol o'n darpariaeth profiad gwaith ni ac mae'n ffordd werthfawr o ddatblygu ystod amrywiol o fyfyrwyr a sgiliau. Felly rydw i'n hynod falch bod y prosiect wedi cael ei ymestyn ac yn edrych ymlaen at weithio gyda fy nghydweithwyr ledled y sector AU i gyflwyno'r rhaglen bwysig yma."

Nodiadau

Dechreuodd rhaglen GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith weithredu ar 1 Ebrill 2016 ac yn wreiddiol roedd i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2019. Cyfanswm gwerth y rhaglen yw £9.6 miliwn.

Y targed hyd at ddiwedd y rhaglen yw derbyn 2,161 o fyfyrwyr ar y rhaglen a 1,839 o fyfyrwyr yn ymgymryd â phrofiad gwaith. Hefyd mae gan y rhaglen darged ar gyfer cyfranogwyr sydd â llai o risg o NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant), sef 1,745.

Mae'r gweithrediadau'n bartneriaeth rhwng CCAUC a'r naw prifysgol yng Nghymru. Mae'r gweithrediadau'n darparu cyfleoedd profiad gwaith teilwredig i fyfyrwyr llawn amser cymwys dan 25 oed, a chefnogaeth gysylltiedig i'w helpu i gael y gorau o'u profiad a chynllunio'u camau nesaf.

Mae'r rhaglen yn helpu'r myfyrwyr hynny sydd, oherwydd eu hamgylchiadau neu eu hanghenion, yn ei chael yn anodd cael profiad gwaith ac sydd angen mwy o gefnogaeth nag y maent yn gallu ei chael o'r ddarpariaeth cyflogadwyedd sydd

wedi'i hymgorffori a mentrau eraill sydd ar gael i'r holl fyfyrwyr. Bydd myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig, myfyrwyr ag anableddau neu gyfrifoldebau gofalu, ac unigolion sy'n gadael gofal ac o gefndiroedd du a lleiafrif ethnig yn elwa o'r cynllun.

Y prifysgolion sy'n cymryd rhan yw: Prifysgol Bangor, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Abertawe, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, Y Brifysgol Agored yng Nghymru a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam.

www.gowales.co.uk

Diwedd

Cyswllt

Emma Raczka, Uwch Reolwr Cyfathrebu, 029 2085 9667,

emma.raczka@hefcw.ac.uk

Am CCAUC

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru - CCAUC – yw'r corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng prifysgolion a Llywodraeth Cymru. Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd darparwyr addysg uwch ac yn sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch a chraffu ar berfformiad prifysgolion. Rydym yn dosbarthu adnoddau ar gyfer addysgu ac ymchwil addysg uwch ac yn helpu i roi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch ar waith er lles cymdeithas yn ehangach ac er lles yr economi.